



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECAD4019/C

**Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol:
Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw
i'n addysgu?**

**BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 4

YR ATHROFA

2025-2026

Manylion Cyswllt

Os bydd arnoch angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl, cysylltwch â:

Gail Parker gail.parker@uwtsd.ac.uk

Neu

Sioned Hughes S.V.Hughes@uwtsd.ac.uk

Ein disgwyliadau

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen. Rydym yma i'ch helpu. Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllenwch [Reoliadau'r Brifysgol i Fyfyrwyr](#)

Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCANION

- Cael y darpar athro i ymwneud â rôl ymchwil y gwyddorau cymdeithasol mewn addysg a'i effaith ar arfer addysgol.
- Datblygu dealltwriaeth gychwynnol o ymagweddau ymchwil arfer moesegol a dod yn ymchwilydd medrus trwy gyfleoedd i ddefnyddio arsylwi fel adnodd ymchwil.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar athro allu dangos y gallu i:

- Ddeall lle ymchwil mewn arfer addysgol a'i effaith ar ddysgu ac addysgu;
- Dechrau dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth ymchwil a gwneud cysylltiadau â'i arfer ei hun;
- Dechrau datblygu arfer moesegol a deall perthynas hynny ag ymchwil trwy ddeall ystyriaethau moesegol yn yr ystafell ddosbarth;
- Deall bod safbwyntiau a phersbectifau gwahanol yn bodoli ym maes ymchwil addysg a dechrau datblygu safbwynt personol yn seiliedig ar dystiolaeth;
- Deall, cymhwyso a gwerthuso arsylwi fel adnodd ymchwil gan gynnal arfer moesegol.

Perthynas â phedwar diben y cwricwlwm newydd:

Datblygu plant a phobl ifanc:	Perthynas hynny â'r modwl hwn: Bydd myfyrwyr yn gallu:
Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Gwneud defnydd o'r dystiolaeth empirig gyfredol a chyfrannu at y sylfaen ymchwil er mwyn codi safonau a dyheadau yr holl ddysgwyr.
Yn gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Defnyddio ymchwil agos-at-arfer i ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu creadigol sy'n hyrwyddo ymreolaeth ac sy'n berthnasol i fywydau'r dysgwyr.
Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl athro proffesiynol o ran deall sgiliau cymhleth arfer moesegol.
Yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Cymhwyso dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n ymwneud â lles a datblygiad, i arfer personol.

Cyflwyniad i'r Modwl

Mae dangos tystiolaeth o ymchwil, cael eich llywio gan ymchwil a bod yn barod at ymchwil yn un o bedair egwyddor Partneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa ac felly mae datblygu sgiliau ymchwil yn ganolog i'r rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Mae nodi datblygiad sgiliau ymchwil a'i gynnydd trwy'r rhaglenni AGA wedi'i fapio ar strwythur modwlar y rhaglen.

Yn rhyngwladol, mae amgylcheddau ysgol sy'n seiliedig ar ymholi (neu sy'n 'gyfoethog o ran ymchwil') yn nodwedd systemau addysg sy'n perfformio'n dda. Er mwyn bod ar eu mwyaf effeithiol, mae angen i athrawon ac addysgwyr athrawon:

- ymgysylltu **ag** ymchwil ac ymholi – mae hyn yn golygu ymglyfarwyddo â'r datblygiadau diweddaraf o fewn arfer addysgol;
- ymgysylltu **mewn** arfer sy'n canolbwyntio ar ymholi – mae hyn yn golygu bod â'r gallu, y cymhelliad, yr hyder a'r cyfle i ymgymryd ag ymchwil yn y dosbarth.

Daeth ymholiad BERA/RSA i'r casgliad (2014) fod proffesiwn llythrennog mewn ymchwil yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr, a bod gallu ymchwil athrawon yn hanfodol i greu system addysg hunan-wella. "A focus on enquiry-based practice needs to be sustained...throughout teachers' professional careers, so that disciplined innovation and collaborative enquiry are embedded within the lives of schools or colleges and become the normal way of teaching and learning, rather than the exception" (BERA/RSA, 2014).

Yn ogystal, nodir ymchwil yn glir o fewn y Safonau Proffesiynol diwygiedig ar gyfer athrawon.

"Ceir ymgysylltu strwythuredig mewn cymuned ymchwil weithredu a thystiolaeth o arfer sy'n cael ei llywio gan waith darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol" (LIC, 2017a¹).

Bydd yn ofynnol i athrawon ddangos sut maent yn bodloni'r safon hon drwy gydol eu gyrfaedd. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'r proffesiwn addysgu fod yn "ymgymryd â gwaith ymchwil, yn hyddysg ac yn dysgu o ragoriaeth" (LIC, 2017). Bydd y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru yn gofyn i athrawon ddefnyddio'r dystiolaeth

¹ Llywodraeth Cymru (2017a) Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Caerdydd: LIC.
<https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-en.pdf>

orau sydd ar gael i ddarparu profiadau dysgu ystyrllon i'w disgyblion. Mae Donaldson (2015, t.71) yn nodi bodaddysgeg gadarn "...yn galw am athrawon o ansawdd uchel sydd â dealltwriaeth drylwyr o ddulliau addysgu a'r rhesymau drostynt yn ogystal â chynnwys yr addysgu".

Yn y modwl hwn, cewch gyfle i ddylunio, cymhwyso a gwerthuso arsylwi fel offeryn ymchwil gan gynnal arfer moesegol.

<i>Ymagwedd</i>	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau
<i>Bod yn sgeptigol / amheugar</i>	Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol: • bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
<i>Bod yn foesegol</i>	Deall sylfaen foesegol ymholiad mewn gweithle cymhleth: • Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil; • Deall ymagweddu (<i>positionality</i>) o fewn ymchwil; • Adnabod eu credoau a'u tybiaethau eu hunain am y byd.
<i>Bod yn ymchwilydd medrus</i>	Deall egwyddorion ymchwil gwyddorau cymdeithasol a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham: • Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; • Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; • Deall dyluniadau pragmataidd. Deall sut i lunio dadl yn seiliedig ar dystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol: • Defnyddio sgiliau darllen beirniadol; • Meithrin ymagwedd amheugar at 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol lefel y cymorth sy'n bodoli neu a all fodoli ar gyfer damcaniaethau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd fel datblygiad plant a natur dysgu: • Meithrin ymagwedd amheugar at 'arloesi' (polisi ac arfer) neu'r 'peth mawr nesaf'. Deall sut i gymhwyso tystiolaeth empirig yn eu dosbarthiadau a gwerthuso ei heffeithiolrwydd: • Bod yn glir ynglŷn â'r hyn a fwriedir a pham; • Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
<i>Bod yn rhan o broffesiwn sy'n ymholi</i>	Cyfrannu at gymuned o ymarferwyr ymholgar: • Gwybod pa un ai i rannu deilliannau ymholiad dosbarth, pryd a sut; • Cyfrannu'n rhagweithiol i ystod o gynulleidfaoedd; • Mynd i'r afael yn weithredol â'r ymholiad a chanfyddiadau pobl eraill.

Bod yn Ymchwilydd Moesegol	
Bod yn Ymchwilydd Medrus	
Bod yn Ymchwilydd Amheugar	
Bod yn rhan o Broffesiwn sy'n Ymholi	
Gweithgaredd ymchwil (cyfnewid gwybodaeth ddeallusol a thrwy brofiadau)	

10 x 2 awr o addysgu uniongyrchol (darlithiau, seminarau a thiwtorialau) ynghyd ag astudio annibynnol a thasgau cyfeiriol

Sesiwn	Cynnwys	Amser
6.11.25	1a. Cyflwyniad a Croeso i'r Modiwl Cyflwyniad i amcanion a deilliannau'r modwl 1b. Cyflwyniad i ymchwil · Cyflwyniad i Ymagweddau Ymchwil Yr Athrofa ac ystyriaeth o'r rhain dros amser; Cyflwyniad i ymchwil: Beirniadaeth, adnoddau ymchwil a rhagfarn TASG 1 - Cyfryngau Cymdeithasol	9:00-10:40 11:00-11:40 TL14
6.11.25	2. Datblygu safbwynt beirniadol ac amheugar o ran addysgeg TASG 2 - Blog	13:30-15:10 TL14
11.11.25	3. Dod yn ymarferydd moesegol: caniatâd a chydsyniad TASG 3 – Creu un sleid pwynt pŵer	9:00-10:40 CJ4
11.11.25	4. Llenyddiaeth sydd â sylfaen empirig a llenyddiaeth sydd â sylfaen ddamcaniaethol TASG 4 – Creu Banc Word	11:00 – 12:40 CJ4

	5. Dod yn ymchwilydd medrus: Cwestiynau Ymchwil (CY) ac offer ymchwil TASG 5 – Gwerthuso ystod o offer ymchwil (gweithio gyda phartner)	13:30—15:10 CJ2/TL06
13.11.25	6. Theori arsylwi TASG 6 - Darllen a drafft cyntaf CY	9:00-10:40 TL14
13.11.25	7. Amserlen arsylwi TASG 7 – Creu amserlen arsylwi eich hun	13:30 – 15:10 TL14
25.11.25	8. Graddfa Leuven ar waith TASG 8 – Darllen a chymryd nodiadau	9:00-10:40 11:00 – 12:40 13:30 - 15:10 CJ4
2.12.25	9. Rhannu eich profiadau ymchwil: sut ydych chi wedi dangos Ymagweddau Ymchwil yr Athrofa yn eich ymchwil yn yr ysgol?	13:30 – 15:10 CJ1
9:12:25	10. Edrych eto ar strwythur yr aseiniad, a darllen/ysgrifennu ar gyfer llwyddiant	9:00 – 12:40 CJ1

Aseiniad ysgrifenedig (100%): Dadansoddiad beirniadol a gwerthusiad o'r offeryn ymchwil arsylwadol 'Graddfa Leuven'.	Aseiniad Ysgrifenedig Unigol	Cyflwyno: 05.01.26 (Dychwelyd: 02.02.26)
---	---------------------------------	---

Dyddiadau Pwysig

Dyddiad Cyflwyno: **05.01.26**
Diwrnodau Ymchwil –**01.12.25**

Darllen Cefndirol

Cod y Modwl	ECAD4019/C	
Teitl y Modwl	Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?	
Categori	Rhestr Ddarllen	Electronig
Hanfodol	Arthur, J. (Ed.). (2012) <i>Research methods and methodologies in education</i> . London: Sage Publications Ltd.	☐
Hanfodol	Bruce, T., Louis, S. & McCall, G. (2014) <i>Observing Young Children</i> . London: Sage Publications Ltd.	☐
Hanfodol	British Educational Research Association (2024) Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition (2024) Available at: https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-fifth-edition-2024	☒
Hanfodol	Cohen, L. Manion, L. and Morrison, K. (2018) <i>Research Methods in Education</i> , 8 th Edition. London: Routledge.	☐
Hanfodol	Noffke, S. E., & Somekh, B. (Eds.). (2009) <i>The Sage Handbook of Educational Action Research</i> . London: Sage Publications Ltd.	☒

Hanfodol	Punch. K. F. (2014) <i>Introduction to Social Research: Quantitative and Qualitative Approaches</i> . 3 rd edition. London: Sage Publications Ltd.	☐
Hanfodol	Thomas, G. (2013) <i>How to do your research project: A guide for students in education and applied social sciences</i> . London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Alderson, P. & Morrow, V. (2011) <i>The Ethics of Research with Children and Young People: A Practical Handbook</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Bell, J. (2014) <i>Doing Your Research Project: A guide for first-time researchers</i> . Maidenhead:McGraw-Hill Education (UK).	☒
Pellach	Denzin, N. K. & Lincoln, Y. S. (eds) (2011) <i>The Sage Handbook of Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	Holliday, A. (2007) <i>Doing and Writing Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☐
Pellach	Mauthner, M. L., Birch, M., Jessop, J. & Miller, T. (eds) (2012) <i>Ethics in Qualitative Research</i> , London: Sage Publications Ltd.	☒
Pellach	McKernan, J., & McKernan, J. (2013) <i>Curriculum action research: A handbook of methods and resources for the reflective practitioner</i> . London:Routledge.	☒
Pellach		☒